

Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC fel y maent ar 31 Rhagfyr 2014

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn gyfrifol am arolygu gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio.



Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno'r canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru ar 31 Rhagfyr 2014 (diwedd chwarter 3, 2014-15) o ran niferoedd y gwasanaethau a'r lleoedd a reoleiddir gan AGGCC, gan gynnwys Gwasanaethau Gofal i Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gofal Dydd i Blant. Mae'n cynnwys cymariaethau gyda chanlyniadau'r blynedd diwethaf.

Mae gan y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiad hwn nifer o ddefnyddwyr allweddol gan gynnwys gweinidogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau unedol llywodraeth leol, myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion, dinasyddion unigol a chwmnïau preifat. Defnyddir y wybodaeth mewn amryw o ffyrdd, megis i gynghori gweinidogion, i gymharu a meincnodi awdurdodau unedol, ac i ddarparu gwybodaeth i gomisiynwyr gwasanaethau gofal.

Ceir eglurhad pellach o'r termau a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn yr [eirfa](#)

Canlyniadau allweddol

- Mae nifer y gwasanaethau a reoleiddir ar unrhyw adeg benodol wedi aros yn gymharol ddigyfnewid, er bod newidiadau o ran cofrestrïadau yn digwydd drwy gydol y flwyddyn.
- Roedd 6,314 o wasanaethau ac iddynt 105,965 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Rhagfyr 2014, sef cynnydd o 132 o wasanaethau a 1,027 o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 1).
- Roedd 1,606 o wasanaethau oedolion ac iddynt 26,283 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Rhagfyr 2014, sef cynnydd o 6 gwasanaeth ond lleihad o 18 o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 2).
- Roedd 252 o wasanaethau plant ac iddynt 2,174 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Rhagfyr 2014, sef cynnydd o 29 o wasanaethau a 9 o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 3).
- Roedd 4,479 o wasanaethau ac iddynt 77,508 o leoedd yng ngofal dydd i blant wedi'u cofrestru ar 31 Rhagfyr 2014, sef cynnydd o 120 o wasanaethau a 1,000 o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 4).



Adran 1: Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC

Gwasanaeth yw'r enw torfol ar gyfer sefydliad neu unigolion a reoleiddir gan AGGCC.

Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – dyma nifer y lleoedd cofrestredig.

Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

Tabl 1 : Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd a reoleiddir gan AGGCC

	31 Rhag 2011	31 Rhag 2012	31 Rhag 2013	31 Rhag 2014
Gwasanaethau Oedolion				
Gwasanaethau	1,631	1,607	1,600	1,606
Lleoedd	26,632	26,552	26,265	26,283
Gwasanaethau Plant				
Gwasanaethau	191	199	223	229
Lleoedd	2,172	2,174	2,165	2,174
Gofal Dydd i Blant				
Gwasanaethau	4,418	4,368	4,359	4,479
Lleoedd	76,135	76,534	76,508	77,508
Cyfanswm				
Gwasanaethau	6,240	6,174	6,182	6,314
Lleoedd	104,939	105,260	104,938	105,965

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

Bu cynnydd cymharol fach yn nifer y gwasanaethau a lleoedd ers yr un chwarter y llynedd (Rhagfyr 2013). Ar y cyfan, ychydig o newid a fu dros y tair blynedd diwethaf yn y nifer o wasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC, er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn y nifer o wasanaethau plant, a chaiff hyn ei drafod yn adrannau tri a phedwar o'r datganiad hwn.

Mae'r tablau isod yn rhoi dadansoddiad cymharol o bob gwasanaeth a amlinellir yn nhabl 1 uchod.

Cyhoeddir gwybodaeth bellach sy'n dangos data ar gyfer awdurdodau lleol a'r mathau o leoliad ar wefan lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsCymru:

<http://statscymru.cymru.gov.uk>

Adran 2: Gwasanaethau oedolion

Mae AGGCC yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer oedolion o bob oed, ac yn rheoleiddio'r asiantaethau a'r sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

Caiff cynlluniau lleoli oedolion eu rhedeg yn lleol ac maen nhw'n galluogi hyd at ddau berson sydd ag anghenion gofal a chymorth i fyw fel rhan o deulu. Gall lleoliadau fod yn barhaol, dros dymor byr, neu'n gyfnodau o ofal seibiant.

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau nyrsio preifat yn y gymuned yw asiantaethau nyrsys, ac maen nhw hefyd yn cynorthwyo pobl â'u gofal personol.

Tabl 2 : Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gwasanaethau oedolion a reoleiddir gan AGGCC

	31 Rhag 2011	31 Rhag 2012	31 Rhag 2013	31 Rhag 2014
Lleoli Oedolion				
Gwasanaethau	13	12	11	11
Lleoedd ^(a)
Gofal Preswyl i Oedolion				
<i>Cartrefi Gofal (Oedolion Hŷn)</i>				
Gwasanaethau	698	686	675	674
Lleoedd	23,191	23,169	22,843	22,760
<i>Cartrefi Gofal (Oedolion Iau)</i>				
Gwasanaethau	475	462	461	451
Lleoedd	3,441	3,383	3,422	3,523
Gofal Cartref				
Gwasanaethau	408	412	416	432
Lleoedd ^(a)
Asiantaethau Nyrsys				
Gwasanaethau	37	35	37	38
Lleoedd ^(a)
Cyfanswm				
Gwasanaethau	1,631	1,607	1,600	1,606
Lleoedd	26,632	26,552	26,265	26,283

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

(a) Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion nac yn y gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

Mae nifer y gwasanaethau a lleoedd i Oedolion wedi aros yn gymharol ddigwyfnewid dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda lleihad bach yn nifer y cartrefi gofal preswyl i oedolion a chynnydd bach mewn gwasanaethau Gofal Cartref. Digwyddodd y newidiadau hyn wrth i'r boblogaeth fynd yn gynyddol hŷn (65 oed a hŷn) ac wrth i bwyslais cynyddol gael ei roi ar ddarparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

Adran 3: Gwasanaethau plant a reoleiddir gan AGGCC (o dan 8 oed)

Mae'r rhain yn cynnwys ystod o wasanaethau, gan gynnwys cartrefi gofal traddodiadol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, lleoliadau arbenigol am hyd at 52 o wythnosau, a gwasanaethau seibiant ar gyfer plant ag amrywiaeth o anabledau. Mae AGGCC hefyd yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant mewn ysgolion arbennig preswyl.

Tabl 3a : Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gwasanaethau plant a gofrestrwyd gydag AGGCC

	31 Rhag 2011	31 Rhag 2012	31 Rhag 2013	31 Rhag 2014
Preswyl Plant				
Gwasanaethau	119	125	127	133
Lleoedd	594	591	583	593
Ysgolion Arbennig Preswyl				
Gwasanaethau	12	11	11	11
Lleoedd	247	238	238	238

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

Bu cynnydd o 13 o wasanaethau preswyl i blant heb unrhyw newid i bob pwrpas yn y nifer o leoedd dros y tair blynedd ddiwethaf, ac yn yr un cyfnod bu lleihad o 10 lle mewn ysgolion arbennig preswyl.

Adran 3b: Gwasanaethau Plant a arolygir gan AGGCC

Gwasanaethau a lleoedd sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Lleol ond yn cael eu harolygu gan AGGCC yw'r rhain.

Gall plant dderbyn gofal gan ofalwyr maeth yn eu cartrefi, naill ai am gyfnodau byr neu yn y tymor hir. Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu asiantaethau ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gallu diwallu anghenion plant a bod y plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae bron i hanner y gwasanaethau maethu'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.

Mae AGGCC yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir gan awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, ond nid yw'n eu cofrestru. Maen nhw'n darparu gwasanaethau sy'n cynnwys recriwtio, asesu a chymeradwyo oedolion sydd am fabwysiadu plentyn, yn ogystal â chymorth ar gyfer darpar fabwysiadwyr a phlant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd.

Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant sy'n lletya mewn ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth addysg.

Tabl 3b : Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gwasanaethau plant a gofrestrwyd gydag AGGCC

	31 Rhag 2011	31 Rhag 2012	31 Rhag 2013	31 Rhag 2014
Gwasanaethau Maethu				
Gwasanaethau	47	49	49	50
Lleoedd
Gwasanaethau Mabwysiadu				
Gwasanaethau	23	23
Lleoedd
Ysgolion Preswyl				
Gwasanaethau	10	11	10	10
Lleoedd	1,161	1,175	1,174	1,341
Colegau Addysg Bellach				
Gwasanaethau	3	3	3	2
Lleoedd	170	170	170	2
Cyfanswm				
Gwasanaethau	191	199	223	229
Lleoedd	2,172	2,174	2,165	2,174

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

Mae'r lleihad yn nifer y lleoedd mewn Colegau Addysg Bellach yn adlewyrchu ail-gofrestrriad (hynny yw, newid categori yn achos un coleg) i fod yn Ysgol Breswyl. Roedd y gwasanaeth hwn yn cyfrif am 168 o'r 170 o leoedd mewn Coleg Addysg Bellach ac felly mae nifer y lleoedd mewn ysgolion preswyl wedi cynyddu gan yr un rhif.

Adran 4: Gofal Dydd i Blant ^(a)

Rydym yn cofrestru ac yn arolygu gofal dydd i blant o dan wyth oed gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau (2010).

Tabl 4 : Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gofal dydd i blant a gofrestrwyd gydag AGGCC ^(a)

	31 Rhag 2011	31 Rhag 2012	31 Rhag 2013	31 Rhag 2014
Gwarchodwyr Plant				
Gwasanaethau	2,377	2,340	2,370	2,466
Lleoedd	12,171	12,071	12,314	12,865
Gofal Dydd Llawn				
Gwasanaethau	586	623	642	654
Lleoedd	24,689	26,275	26,931	27,222
Gofal Dydd Sesiynol				
Gwasanaethau	801	781	774	790
Lleoedd	17,623	17,425	17,420	17,709
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol				
Gwasanaethau	517	488	474	477
Lleoedd	17,415	16,701	16,708	16,825
Meithrinfeydd				
Gwasanaethau	46	47	40	32
Lleoedd	810	814	757	636
Darpariaethau				
Chwarae Mynediad				
Gwasanaethau	91	89	59	60
Lleoedd	3,427	3,248	2,378	2,251
Cyfanswm				
Gwasanaethau	14,212	14,099	4,359	4,479
Lleoedd	63,964	64,463	76,508	77,508

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

(a) Gwasanaethau yw'r rhain ar gyfer plant o dan 8 mlwydd oed

At ei gilydd, mae nifer y gwasanaethau a lleoedd gofal dydd i blant wedi bod yn gymharol ddigifnewid dros y tair blynedd diwethaf.

Wrth edrych yn fanylach gwelir:

- Y bu cynnydd o 96 o wasanaethau gwarchod plant a 551 o leoedd ers mis Rhagfyr 2013.
- Bu cynnydd o 68 o wasanaethau gofal dydd llawn a 2,533 o leoedd ers mis Rhagfyr 2011.
- Dros yr un cyfnod bu lleihad cyfatebol yn y ddarpariaeth chwarae mynediad agored, gofal y tu allan i oriau ysgol, a *crèches* (cyfanswm o 85 o wasanaethau a 1,940 o leoedd)

Awgryma ffigurau bod "Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant" i gynyddu nifer y gwasanaethau gofal plant fforddiadwy yn cael dylanwad ar y farchnad gofal plant ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

**Geirfa
Lleoedd**

Bydd rhai lleoliadau a gwasanaethau'n cael eu cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – nifer y lleoedd cofrestredig.

Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion nac yn y lleoliadau a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru (gweler "Cofrestru").

Darparwr

Corff neu unigolyn sy'n darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol neu wasanaeth blynnyddoedd cynnar a reoleiddir.

Cofrestru

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n darparu gofal i bobl gofrestru gydag AGGCC cyn y caiff ddechrau gweithredu. Rhaid i'r sawl sy'n dymuno rhedeg gwasanaethau wneud cais i AGGCC i gofrestru, sy'n cynnwys cyfweliadau ac archwiliadau ymweliad safle. Dim ond gwasanaethau sy'n dangos eu bod yn addas i'w rhedeg sy'n cael eu cofrestru.

Mae gwasanaethau gofal sydd angen eu cofrestru yn cynnwys:

Cartrefi gofal i oedolion hŷn ac iau, asiantaethau gofal cartref, cartrefi plant, asiantaethau maethu yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol, asiantaethau mabwysiadu yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd.

Dylid nodi nad yw asiantaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl na cholegau addysg bellach yn cael eu cofrestru gydag AGGCC ond eu bod yn cael eu rheoleiddio gan AGGCC (gweler 'Rheoleiddio').

Rheoleiddio

Mae rheoleiddio gwasanaethau gofal yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau gan AGGCC i sicrhau bod gwasanaethau gofal yn ddiogel ac er mwyn annog gwella. Mae rheoleiddio'n cynnwys: Cofrestru – penderfynu pwy a gaiff ddarparu gwasanaethau; Arolygu – arolygu gwasanaethau a chyhoeddi adroddiadau, a Gorfodi – cymryd camau gorfodi, gan gynnwys hysbysiadau diffyg cydymffurfio, canslo cofrestriad gwasanaeth ac ymgymryd ag erlyniadau troseddol. Nid yw AGGCC yn ymchwilio i gwynion ond mae yn ymateb i bryderon, fel rheol trwy ymgymryd ag arolygiad o'r gwasanaeth.

Rheoliadau

Mae rheoliadau yn ofynion cyfreithiol ar gyfer rhedeg gwasanaethau a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a chânt eu gorfodi gan AGGCC ar ran Gweinidogion Cymru.

**Lleoliadau
gwasanaethau**

Dyma'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio cyrff neu unigolion sy'n cael eu rheoleiddio gan AGGCC.

Gofal dydd i blant Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol ar gyfer plant dan 8 oed:
Gofal Dydd Llawn
Gwarchodwyr Plant
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
Gofal Dydd Sesiynol
Meithrinfeydd
Darpariaeth Mynediad Agored

Gwasanaethau i blant Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:
Cartrefi Plant
Canolfannau Preswyl i Deuluoedd
Asiantaethau maethu yn y sector cyhoeddus ac yn y sector annibynnol
Asiantaethau mabwysiadu yn y sector cyhoeddus ac yn y sector gwirfoddol
Ysgolion preswyl gyda myfyrwyr dan 18 oed
Ysgolion arbennig preswyl gyda myfyrwyr dan 18 oed
Colegau addysg bellach gyda myfyrwyr dan 18 oed
Unedau diogelwch (wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cartrefi plant oherwydd y niferoedd isel)

Gwasanaethau i oedolion Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:
Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (65 oed a throsodd)
Cartrefi Gofal i Oedolion Iau (dan 65 oed)
Cynlluniau Lleoli Oedolion
Asiantaethau Gofal Cartref
Asiantaethau Nyrsys

Newidiadau arfaethedig i'r datganiad hwn

Mae AGGCC, gan ymgynghori â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, yn y broses o adolygu'r datganiad hwn fel y gallwn adlewyrchu'r prif negeseuon mewn perthynas â'r newidiadau i ddarpariaeth y farchnad. Gwnaed rhai newidiadau i'r datganiad hwn, megis ychwanegu gwybodaeth gyd-destunol. Caiff y newidiadau pellach hyn eu hargymell:

1. Newid teitl y datganiad i 'Gwasanaethau a lleoedd gofal a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fel y maent ar [dyddiad diwedd chwarter]'
2. Symud y datganiad o fod yn un chwarterol i un blyneddol ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, hynny yw, ar 31 Mawrth, a chyhoeddi'r datganiad tua diwedd mis Mai. Gellir parhau i ddiweddarau ffigurau'n chwarterol ar wefan StatsCymru os oes galw amdanynt;

fodd bynnag, un o'r prif resymau dros newid i adrodd yn flynyddol yw mai ychydig iawn o newid o ran data sydd yna o un chwarter i'r llall.

Ceisiwn sicrhau ein bod ni'n ymgynghori â defnyddwyr ein hystadegau ac felly fe'ch gwahoddwn i anfon sylwadau ar y newidiadau arfaethedig a'r datganiad yn gyffredinol at: cssiw_information@wales.gsi.gov.uk

Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

1. Cefndir

AGGCC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys gwarchodwyr plant a meithrinfeydd, a chartrefi i bobl hŷn. Mae'n anelu at:

- Roi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac ymhle a phryd mae ar gael
- Diogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn;
- Gwella gofal drwy annog a hyrwyddo gwelliannau o ran diogelwch, ansawdd a chyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Cyfrannu at bolisi a safonau, a darparu cyngor proffesiynol annibynnol i'r bobl sy'n datblygu polisi, i'r cyhoedd ac i'r sector gofal cymdeithasol.

Mae AGGCC yn hybu gwelliannau i ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol drwy:

- reoleiddio
- arolygu ac adolygu
- rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a gwneuthurwyr polisi.

2. Ffynhonnell yr ystadegau

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn hybu'r gwaith o wella gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol drwy wneud y canlynol:

- rheoleiddio
- arolygu ac adolygu
- rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisi.

Mae'r wybodaeth yn y briff hwn yn deillio o'r system weinyddol y mae AGGCC yn ei defnyddio i gofrestru ac i reoleiddio lleoliadau gofal. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio'n unig. Mae AGGCC wrthi'n adolygu'r broses a'r systemau rheoleiddio.

3. Amseriad

Mae system weinyddol AGGCC yn cael ei diweddarau'n barhaus fel rhan o waith rheoleiddio'r arolygiaeth o ddydd i ddydd. Mae a wnelo'r cyhoeddiad â chipluniau o'r system a gymerir yn chwarterol drwy gydol y flwyddyn ariannol. Felly mae gwybodaeth a gyhoeddir ar gael ar gyfer diwedd

- Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) sef 30 Mehefin
- Chwarter 2 (Gorffennaf i Fedi) sef 30 Medi
- Chwarter 3 (Hydref i Ragfyr) sef 31 Rhagfyr
- Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth) sef 31 Mawrth

4. Ansawdd data

Mae cofrestru, dadgofrestru a newidiadau mewn cofrestriadau'n digwydd drwy gydol y flwyddyn, er bod nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw adeg benodol yn weddol gyson ar y cyfan.

Efallai bod peth o'r data yn yr adroddiad hwn wedi cael ei ddiwygio ers iddo gael ei gyhoeddi ddiwethaf yn adroddiad blynyddol 2012-13 y Prif Arolygydd.

5. Symbolau

Defnyddir y symbolau canlynol yn y tablau hyn:

. = nid yw'r data'n berthnasol

.. = nid yw'r data ar gael

- = nid yw'r data yn union sero, ond caiff ei amcangyfrif fel sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir

* = nid yw'r data'n cael ei ddatgelu neu nid yw'n ddigon pendant i gael ei gyhoeddi

6. Datgelu a thalgrynnu

Nid yw'r manylion yn y tablau hyn nac yn y tablau ategol yn StatsCymru wedi'u talgrynnu. Y rheswm am hyn yw bod yr wybodaeth hon i'w chael hefyd yng Nghyfeiriadur Gwasanaethau Rheoledig AGGCC (gweler eitem 9)

7. Polisi diwygiadau

Gan fod y data'n deillio o system weinyddol ac yn rhoi darlun o weithgarwch a gofnodwyd ar ddyddiad penodol, ni fydd data'n cael ei ddiwygio bob chwarter. Efallai nad yw'r darlun hwn yn gwbl gywir gan nad yw'r wybodaeth o bosib wedi cael ei rhoi ar y system tan yn ddiweddarach (h.y. y chwarter nesaf) ac fe allai'r chwarter nesaf gynnwys rhywfaint o ddata o'r chwarter blaenorol a oedd yn 'hwyr' yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd nifer yr achosion dan sylw yn isel.

8. Defnyddio ystadegau

Ystyriwn mai'r canlynol yw'r prif rai sy'n defnyddio gwybodaeth am leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru (ac eithrio defnydd craidd AGGCC):

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (swyddogion ac aelodau etholedig)
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill o'r llywodraeth
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat

Ar wahân i'r defnydd craidd y mae AGGCC yn ei wneud o'r wybodaeth, bydd yr ystadegau hyn yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynghori Gweinidogion
- Gwaith meincnodi a chymharu awdurdodau unedol
- Bod yn sail i drafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol a thu hwnt

- Darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau gofal

9. Cyhoeddiadau cysylltiedig

- Cyhoeddir gwybodaeth fanylach bob chwarter i gyd-fynd â'r datganiad hwn ar wefan lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsCymru. Yma ceir dadansoddiad pellach yn ôl y math o leoliad a fesul awdurdod lleol: <http://statscymru.cymru.gov.uk>
- Bob blwyddyn bydd AGGCC yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau mewn lleoliadau a reoleiddir yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Gellir dod o hyd i'r Adroddiad Blynyddol drwy'r ddolen ganlynol: <http://cssiw.org.uk/our-reports/annual-reports/?lang=cy>
- Mae rhestrau o leoliadau a reoleiddir a'u hadroddiadau arolygu diweddaraf ar gael yng Nghyfeiriadur y Gwasanaethau Rheoledig: <http://cssiw.org.uk/find-a-care-service/service-directory/?lang=cy>

10. Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach ar wefan AGGCC:

www.aggcc.org.uk

Gwybodaeth ar gyfer cysylltu

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y Datganiad Ystadegol hwn, cysylltwch â:

Claire Bushell

AGGCC

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8911

E-bost: cssiw_information@Wales.gsi.gov.uk